**LC812**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Diwygio) (Cymru) 2004**

Diben y Gorchymyn hwn yw diwygio Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2001 i ymhelaethu ar yr amgylchiadau pryd y gall aelodau o rai awdurdodau cyhoeddus penodol gymryd nad oes ganddynt "fuddiant personol" mewn mater.

**Rheol Sefydlog 11.5**
Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**
Bernir mai enw priodol y Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygio) 2004, oherwydd ei fod yn diwygio Gorchymyn presennol sy'n berthnasol i Gymru'n unig. Byddai trefn y geiriau yn briodol pe byddai'r gorchymyn yn diwygio deddfwriaeth bresennol sydd â chwmpas mwy helaeth (e.e. gorchymyn Lloegr a Chymru) ar gyfer Cymru.

Clustnodwyd dau wall teipograffyddol y mae angen eu cywiro cyn cyhoeddi'r Gorchymyn a thynnwyd sylw'r cyfreithwyr sy'n drafftio atynt. Awgrymwyd hefyd y dylid ychwanegu darn byr at y Nodyn Esboniadol, y gellir ei ychwanegu wrth gyhoeddi.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Ionawr 2004**